

Cylchlythyr Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Gwanwyn 2018

Tony Young, Cyd-
Gadeirydd y BDRh
yn Ymddeol

Cynlluniau
Blynyddol wedi'u
Cyhoeddi

AYP 09/2014
wedi'i gyhoeddi

Gweithdy CSE
(Camfanteisio'n
Rhywiol ar Blant)
Gwella

Wythnos Ddiogelu
Genedlaethol
2018

Ymgyrch
Cyfathrebu
VAWDASV (Trais
yn erbyn
Menywod, Cam-
drin Domestig a
Thrais Rhywiol) –
Paid cadw'n dawel

PRUDiC 2018
wedi'i gyflwyno

Adolygu'r
Gweithdrefnau
Diogelu Cymru
Gyfan

Cam-drin
Domestig Pobl
Hŷn yng Nghymru

Llinellau Sirol

Tony Young, Cyd-Gadeirydd y BDRh yn Ymddeol

Fel y gwyddoch, gwnaeth Tony Young ymddeol yn ddiweddar o'i rôl fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Dinas Caerdydd ar ôl bron 5 mlynedd yn y swydd. Daeth Tony yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2013 a chafodd ei benodi'n Gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ym mis Medi 2015. Yna, cafodd ei benodi'n gyd-gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ym mis Mai 2017.

Hoffai Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro (BDRh) fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Tony am ei holl waith caled a'i ymrwymiad fel cyd-gadeirydd y Byrddau a'r rôl arwyddocaol y chwaraeodd yn natblygiad y Byrddau hyd yn hyn. Caiff ei gyfraniad ei werthfawrogi'n fawr gan staff, cydweithwyr ac aelodau fel ei gilydd.

Dymunwn ymddeoliad hir, ffyniannus a hapus iawn i Tony.

Bydd y bwrdd yn penodi'r cyd-gadeirydd newydd pan fyddant yn cwrdd nesaf ar 15 Mai.



Cynlluniau Blynyddol wedi'u Cyhoeddi

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y BDPRh a'r BDORh eu Cynlluniau Blynyddol ar gyfer 2018/19. Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Byrddau yn ystod y flwyddyn ariannol. Ym mis Gorffennaf, bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn nodi cynnydd a chyflawniadau mewn cysylltiad â Chynllun Blynyddol y llynedd.

Blaenoriaethau'r BDPRh ar gyfer eleni yw: Effeithiolrwydd y system amddiffyn plant, Plant ar gyrion y system amddiffyn plant, Sicrhau cyfranogiad gan ddefnyddwyr gwasanaeth a Dysgu gwersi o adolygiadau. Y blaenoriaethau ar gyfer y BDORh yw: Gweithlu a Gofal Cartref. Mae copïau o'r Cynlluniau Blynyddol ar gael ar wefan y Byrddau perthnasol.

Adolygiad Ymarfer Plant (AYP) wedi'i Gyhoeddi

Ym mis Chwefror, cafodd AYP 09/2014 ei gyhoeddi gan y bwrdd. Awgrymodd yr adroddiad argymhellion yn ymwneud â llais y plentyn/defnyddiwr gwasanaeth, datblygu staff, cynllunio/asesu/adolygu ac awdurdod rhyngasiantaethol. Mae copi o'r adroddiad ar gael ar ein gwefan.

Gweithdy CSE Gwella

Ym mis Ebrill, cynhaliodd dau ymarferydd Gwella weithdy i weithwyr proffesiynol yng Nghaerdydd a'r Fro yn ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) a'r angen am ymyrraeth gynnar.

Mae Gwella yn gydweithrediad rhwng CASCADE a Barnardo's sydd â'r nod o leihau'r risg i blant agored i niwed sy'n profi CSE neu sy'n dangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (SHB). Mae'n bwriadu gwneud hyn drwy ddatblygu mesur atal i'w ddefnyddio mewn gofal cymdeithasol. Mae Barnardo's yn peilota dull atal ac ymyrraeth gynnar arloesol i nodi'n fwy cywir achosion posibl o CSE neu SHB mewn plant yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am gynllun peilot Gwella, cysylltwch â'r Uned Fusnes.



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre

Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant

Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2018

Bydd wythnos ddiogelu genedlaethol yn cael ei chynnal eleni rhwng 12 a 16 Tachwedd ac mae'r Uned Fusnes wedi cychwyn paratoadau ar gyfer yr wythnos.

Thema eleni fydd Camfanteisio ac rydym yn cynllunio digwyddiadau codi ymwybyddiaeth o linellau sirol, cwcwïo a dulliau eraill o gamfanteisio troseddol, caethwasiaeth a masnachu modern, CSE a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Oedolion (ASE) a cham-drin ariannol.

Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i drefnu'r digwyddiadau hyn, os hoffech fod yn rhan o'r grŵp hwn neu os yw'ch asiantaeth yn bwriadu cynnal unrhyw beth yn ystod yr wythnos hon (nid yw digwyddiadau wedi'u cyfyngu i thema camfanteisio), cysylltwch â'r Uned Fusnes.



Ymgyrch Cyfathrebu

Cenedlaethol VAWDASV – Paid cadw'n dawel

Ar 25 Ebrill, lansiodd Llywodraeth Cymru ei ail ymgyrch '**Paid Cadw'n Dawel**'. Nod yr ymgyrch yw annog pobl yng Nghymru i wneud rhywbeth os ydynt yn poeni am rywun maent yn ei adnabod a allai fod yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drosedd rhywiol.

Gellir gweld yr ymgyrch, sy'n cynnwys ffilm, cyfryngau digidol a chymdeithasol, drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
<http://livefearfree.gov.wales/campaigns/dont-be-a-bystander?skip=1&lang=cy>

Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentynod (PRUDiC) 2018

Cyflwynwyd fersiwn terfynol o Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentynod (PRUDiC) 2018 gan y Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru) a'i weithredu ar 1 Ebrill 2018.

Crëwyd y ddogfen drwy broses ymgysylltu, cydweithio ac ymgynghori gyda grwpiau proffesiynol allweddol, partneriaid aml-asiantaeth a rhanddeiliaid wedi'i hwyluso gan y Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru).

Mae'r PRUDiC yn darparu'r safon ofynnol i'w dilyn pan fo baban neu blentyn yn marw'n annisgwyl ac mae'n berthnasol i bob marwolaeth plant o'u geni hyd nes eu penblwydd yn 18 oed, boed hynny o achosion naturiol, annaturiol, hysbys neu anhysbys.

Mae'r weithdrefn yn sicrhau bod unffurfiaeth ar draws Cymru o ran yr ymateb aml-asiantaeth i blant yn marw'n annisgwyl.

Mae Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn monitro'r broses PRUDiC a gychwynnir o fewn ei ranbarth ei hun ac yn sicrhau y caiff ei dilyn nes ei chwblhau.

Adolygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan

Mae ymgynghorydd yr adolygiad, Jan Horwath wedi dechrau drafftio gweithdrefnau. Mae'r Cyflwyniad a Phennod 1 wedi'u datblygu ac maent yn nwylo'r tîm prosiect ehangach iddo gyflwyno ei adborth. Yna byddant yn cael eu huwchlwytho i'r hyb ar-lein yn gynnar ym mis Mai. Gellir gadael adborth ar yr hyb ar-lein

<https://learning.wales.nhs.uk/course/index.php?categoryid=300>

Os nad ydych wedi'ch cofrestru i'ch hyb ar-lein, cysylltwch â Jo Phillips jophillips@caerdydd.gov.uk

Mae cynnydd ar adran nesaf y gweithdrefnau yn mynd rhagddo. Bydd y bennod 'Dyletswydd i Adrodd' ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r tîm project yn gynnar ym mis Mai gyda'r bwriad o'i huwchlwytho i'r hyb ar-lein yn gynnar ym mis Mehefin.

Yn dilyn adborth o ddwy adran gyntaf y weithdrefn, ceisir cymeradwyaeth gan Aelodau'r Bwrdd yng Nghyfarfod nesaf y Bwrdd Project ym mis Gorffennaf.

Oherwydd bod cadeirydd y bwrdd project, Tony Young, yn ymddeol, mae Lance Carver wedi cymryd ei le fel cadeirydd dros dro.

Cam-drin Domestig Pobl Hŷn yng Nghymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi mynd ati'n ddiweddar i newid poster i a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ymwneud â phobl hŷn yr effeithir arnynt gan Gam-drin Domestig. Mae mwy na 40,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan gam-drin domestig!

Mae'r poster newydd yn cyfeirio at y llinell gymorth 24 awr, '**Byw Heb Ofn**': **0808 80 10 800**.

Mae copïau o'r poster newydd ar gael o Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn ask@olderpeoplewales.com

Llinellau Sirol

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynhyrchu canllaw i weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac o bosib oedolion a allai fod yn agored i niwed ac mewn perygl, ynghylch delio â'r mater Cenedlaethol, sef 'Llinellau Sirol'.

'Llinellau Sirol' yw'r term a ddefnyddir ar gyfer gangiau trefol sy'n cyflenwi cyffuriau i ardaloedd maestrefol gan ddefnyddio llinellau ffonau symudol pwrpasol. Mae'r gangiau'n camfanteisio'n droseddol, gan ddefnyddio plant a phobl agored i niwed i symud cyffuriau ac arian.

Bydd y canllaw, sydd hefyd yn ddefnyddiol i rieni a gofalwyr, yn helpu pobl i nodi'r arwyddion ac ymateb yn briodol fel y gallant helpu dioddefwyr posibl i gael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Mae'r canllaw a'r deunydd hyrwyddo a gynhyrchir ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Swyddfa Gartref:

<https://www.gov.uk/government/publications/criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults-county-lines>

<https://www.gov.uk/government/collections/county-lines-criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults>

VAWDASV Strategy

2018-2023

Mae trais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yn arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol i ferched, dynion, plant, teuluoedd a chymdeithas yn gyffredinol. Nododd Deddf Trais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ofyniad i awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gyd-baratol strategaethau rhanbarthol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae Strategaeth ddrafft Trais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2018-2023 Caerdydd a Bro Morgannwg wedi'i datblygu ac wedi mynd trwy broses ymgynghori eang. Disgwylir i'r strategaeth derfynol fod ar gael ym mis Gorffennaf. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y strategaeth cysylltwch â Natalie Southgate, Rheolwr Project Gwella – NSouthgate@caerdydd.gov.uk

I gysylltu â'r Uned Fusnes, ffoniwch **02922 330880**

Neu anfonwch e-bost at cardiffandvalersb@cardiff.gov.uk